

Cyngor Cymuned Llanbadrig Community Council

Cofnodion o gyfarfod a gynhaliwyd nos Lun 14/4/2014
Minutes of the meeting held on Monday evening 14/4/2014

Presennol / Present:

Mr Elfed Jones (Cadeirydd / Chair)
Mrs Marilyn Hughes
Mr Derek Owen
Mrs Julia Dobson
Mr David Livingstone
Mrs Rose Griffiths

Mr Ricky Hughes (Is-gadeirydd / Vice Chair)
Mrs Carys Davies
Mr Jack Longman
Mr Tony Hughes
Mr Dei Owens

Cynghorwyr Sirol / County Councillors:

Cyng / Cllr Wil Hughes

Cyng / Cllr Aled M Jones

Yn Bresennol / In Attendance:

Mrs Carli Evans-Thau (Clerc / Clerk)
Mr T Tainton (Nant y Dyfrgi)

Miss Eira Parry (Cyfieithu / Translation)
Miss T Samples (Nant y Dyfrgi)

Ymddiheuriadau / Apologies:

Cyng / Cllr Richard Owen Jones

1 Croeso / Welcome

Croesawyd pawb i'r cyfarfod / All present were welcomed to the meeting.

2 Datgan Diddordeb / Declaration of Interest

Cyng / Cllr Wil Hughes – Ceisiadau cynllunio / Planning applications

3 Cofnodion y Cyfarfodydd Diwethaf / Minutes of the Last Meetings

Roedd pedwar pwynt i'w nodi –

Tud 35, pwynt 3.1 – Roedd Dei Owens wedi datgan diddordeb tra bod yr aelodau'n trafod y gwaith i'w wneud ar llwybr y fynwent.

Tud 37, pwynt 6.3 – Nodwyd na ddylid trafod cytundebau tra fod contractwyr yn bresennol.

Tud 38, pwynt 9.2 – Mae gwybodaeth hyfforddiant ROSPA wedi ei anfon at y cler.

Tud 40, pwynt 3 – Nodwyd bod angen gwirio bod holl asedau y Cyngor wedi ei gynnwys ar y rhestr asedau, ac hefyd gwirio bod y dogfennau cyfreithiol perthnasol wedi eu cadw mewn safb rhag difrod tan.

Cynnigwyd bod y cofnodion yn gywir gan Marilyn Hughes, eilyddwyd gan Derek Owen.

There were four points to note –

Page 35, 3.1 – Dei Owens had declared an interest during the discussion on work to be carried out on the path in the cemetery.

Page 37, 6.3 – It was noted that contracts shouldn't be discussed whilst contractors were present

Page 38, 9.2 – Information on ROSPA training has been forwarded to the clerk.

Page 40, 3 – It was noted that the Asset Register is to be checked to ensure that all Council assets are included, and that the relevant legal documents are stored securely in a fire proof safe.

The minutes were confirmed as a true record of the meetings, proposed by Marilyn Hughes, seconded by Derek Owen.

4 Materion yn Codi o'r Cofnodion / Matters Arising from the Minutes

4.1 Mynwent y Rhyd / Y Rhyd Cemetery

Cafwyd ebost gan Mr Thomas Hughes (Cyngor Sir Ynys Mon) yn dweud y buasai yn cwblhau arolwg daearyddol am ddim er mwyn gallu prisio'r gwaith, ac y bydd mewn cysylltiad eto pan fydd wedi cwblhau'r arolwg.

An email has been received from Mr Thomas Hughes (Anglesey County Council) stating that he would complete a topographical survey free of charge in order for an estimate to be provided for the work to be done. He will be in contact again as soon as the survey has been completed.

4.2 Nant y Dyfrgi

Croesawyd Mr Tainton a Miss Samples i'r cyfarfod gan eu bod wedi gofyn ymlaen llaw i gael cymryd rhan yn y drafodaeth.

Gofynnwyd pwy oedd wedi rhoi caniatad i Julia Dobson ddosbarthu llythyr yn ymwneud a materion Nant y Dyfrgi cyn cyfarfod llawn diwethaf y Cyngor, a pha hawl oedd ganddi gysylltu a'r unigolion a'r mudiadau ar ran y Cyngor. Derbyniwyd llythyrau gan drigolion Nant y Dyfrgi yn cwyno am ymddygiad Mrs Dobson ac yn gofyn am ymateb i nifer o gwestiynnau, ac am gyfarfod pwrpasol i gael drafod y mater ymhellach.

Fe gadarnhaodd Mrs Dobson ei bod wedi cysylltu a gwahanol gynrychiolwyr ar ol i drigolion yr ardal gysylltu a hi ynglyn a'r mater. Roedd y cyswllt yma wedi ei wneud fel unigolyn ac nid ar ran y Cyngor, ac fe ymddiheurodd os oedd y llythyr wedi edrych fel llythyr swyddogol ar ran y Cyngor. Fe gytunwyd y dylai unrhyw ohebiaeth yn y dyfodol gael ei anfon drwy law unai y Cadeirydd neu'r Clerc. Pwysleiswyd bod rhaid i'r aelodau weithio gyda'u gilydd er mwyn y gymuned,

Cafwyd diweddariad am y sefyllfa bresennol gan Miss Samples. Mae'r mater yn nwylo'r twrniod (ar ran Mr Tainton ac y Cyngor Cymuned), ac felly dylid disgwyl eu hymateb cyn gwneud dim mwy.

Gweithred – y clerc i ymateb i lythyr Mr Tainton i amlinellu y sefyllfa bresennol.

Mr Tainton and Miss Samples were welcomed to the meeting as they had requested to speak on this matter.

The question was raised as to who had given Julia Dobson permission to distribute a letter regarding matters at Nant y Dyfrgi at the last Council meeting, and what right did she have to contact the various organisations and individuals listed on behalf of the Council. Letters were received from the residents of Nant y Dyfrgi complaining about Mrs Dobson's behaviour and requesting answers to a number of questions and a specific meeting so that the matter can be discussed further.

Mrs Dobson confirmed that she had been in contact with various representatives following contact from a number of local residents regarding the ongoing issues. This contact had been made as an individual and not on behalf of the Council, and she apologised if the letter had come across as such. It was agreed that any future correspondence is disseminated via the Chair or the Clerk. It was emphasised that all members should work together and cooperate for the benefit of the community.

Miss Samples gave all present an update of the current situation. The matter is being dealt with by the solicitors (both on behalf of Mr Tainton and the Community Council) and as such we should await their response before moving ahead.

Action – the clerk to respond to Mr Tainton’s letter to outline the current situation.

4.3 Toileddau / Toilets

Mae'r pwyllgor cyllid yn hapus gyda'r les sydd wedi ei baratoi ar gyfer toiledau'r traeth. Bydd cyfrifoldeb y Cyngor Cymuned yn dechrau pan fydd y toiledau yn barod. Cytuno y dylid arwyddo'r les.

Bydd y toiledau yn y stryd yn aros ar agor nes bydd toiledau'r traeth yn barod. Penderfynwyd ysgrifennu at Mr Dewi Williams (Adran Briffyrdd) i weld pa opsiynau sydd ar gael i'r Cyngor Cymuned i gael cymryd cyfrifoldeb am y toiledau yn y stryd.

Gweithred – trefnu arwyddo'r les ac ysgrifennu at Mr Dewi Williams ynglyn a'r toiledau ar y stryd.

The finance committee are happy with the lease that has been drafted for the beach toilets. The Community Council will not be responsible for them until they are ready. It was agreed to sign the lease.

The facilities in the street will remain open until the facilities on the beach are ready. It was agreed to write to Mr Dewi Williams (Highways Dept) to ask what options are available for the Community Council to take responsibility for the facilities in the street.

Action – arrange for the lease to be signed and write to Mr Dewi Williams regarding the toilets on the street.

4.4 Cae Chwarae Tregele / Tregele Playing Field

Mae'r storfa offer wedi ei leoli erbyn hyn, ond nid yn lle drafodwyd yn y cyfarfod diwethaf gan fod cwynion gan drigolion. Penderfynwyd disgwyl i'r pwyllgor cae chwarae ddod yn ôl o'u gwyliau cyn cyfarfod i'w ail leoli mewn safle gwell.

Mae ymchwiliad i berchnogaeth hanner y cae chwarae yn parhau. Gofynnwyd a oes modd i'r Cyngor Cymuned roi cais amdano gan eu bod wedi bod yn ei gynnal ers oddeutu 30 mlynedd. Mae Cyng. Wil Hughes ar ganol chwilio i mewn i hanes y tir a bydd yn adrodd yn ôl cyn gynted ag y bydd gwybodaeth ar gael. Yn y cyfamser, roedd yr aelodau yn fodlon arwyddo les newydd fel bod modd ceisio am grantiau.

Gweithred – trefnu arwyddo les newydd a pharhau i chwilio am hanes y tir.

The play pod has now been delivered to the play area, but it has not been sited where discussed at the last meeting due to complaints from local residents. It was agreed to wait until the play area committee returned from holiday before meeting to discuss re-siting the container in a better position.

The research into the ownership of the land continues. It was asked whether the Community Council could claim ownership as it has been maintained for the last 30 years approx. Cllr Wil Hughes is currently looking into the history of the land in question and will report back as soon as any information is to hand. In the meantime, the members were happy to sign a new lease so that grant applications could be submitted.

Action – arrange to sign a new lease and continue to look for the history of the land in question

4.5 Maes Parcio Lon Glascoed / Lon Glascoed Car Park

Mae'r Cyng. Wil Hughes yn disgwyl am fwy o wybodaeth cyn gallu adrodd yn ôl i'r Cyngor.

Cllr Wil Hughes is waiting on more information before reporting back to the Council.

4.6 Gwylfan yr Harbwr / Harbour Viewing Area

Mae cadarnhad wedi ei dderbyn mai cyfrifoldeb y Cyngor Sir fydd hwn gan mai ar dir y Cyngor Sir y mae'r datblygiad. Bydd y gwaith wedi ei gwblhau erbyn mis Gorffennaf.

The County Council have confirmed that the viewing area will remain their responsibility as it is on County Council land. The work will be completed by July.

4.7 Yswiriant / Insurance

Cafwyd amcan bris gan Aon am £1126.03, sef bron i £1500 yn rhatach na'r amcan bris gwreiddiol gan Zurich. Fe gytunodd pawb i symud at Aon. Nodwyd bydd angen ychwanegu'r 'Play Pod' i'r rhestr asedau gan y cwmni yswiriant (tua £3k)

Gweithred - ychwanegu £3k i asedau'r caeau chwarae sydd wedi eu hyswirio.

A quote for insurance cover from Aon has been received at £1126.03, nearly £1500 cheaper than the current quote from Zurich. All present agreed to move to Aon. It was noted that the assets register for the insurance will need to be amended to include approx £3k play equipment for the play pod.

Action – add £3k to value of the play equipment insured.

5 Cyllid / Finance

5.1 Adroddiad Misol / Monthly Report –

Dosbarthwyd copi o'r adroddiad cyllid misol wedi ei baratoi gan Elizabeth Jones ar ran y Pwyllgor Cyllid i'r aelodau.

A copy of the monthly financial report prepared by Elizabeth Jones on behalf of the Finance Committee was distributed to all members present.

5.2 Anfonebau i'w talu / Invoices to be paid –

Neuadd Bentref - Llogi ystafell £10
Village Hall – Room Hire

Cyngor Sir Ynys Môn - Etholiad £1736
Anglesey County Council – Local Election

Aon – Yswiriant 2014/15 £1126.03
Aon – Insurance 2014/15

J Longman – Torri glaswellt £200
J Longman – Grass cutting

5.3 Elizabeth M Jones –

Cynigwyd bod yr aelodau fel unigolion yn rhoi rhodd ariannol tuag at brynu anrheg i Elizabeth Jones am ei gwaith gyda'r Cyngor. Bydd yn gorffen ei dyletswyddau ddiwedd Ebrill. Cytuno bod y rheini sydd am gyfrannu yn rhoi swm mewn amlen i'r Cadeirydd cyn diwedd y mis, a bydd tocyn canolfan arddio yn cael i gyflwyno i Mrs Jones yn y cyfarfod nesaf.

Gweithred – pawb sydd am gyfrannu i fynd ag arian i'r Cadeirydd; y Clerc i wahodd Elizabeth Jones i'r cyfarfod nesaf.

It was suggested that the members contribute individually towards a gift for Elizabeth Jones to thank her for her work on behalf of the Council. She will finish her duties with the Council at the end of April. It was agreed that those who wish to participate place their contribution in an envelope for the attention of the Chair by the end of the month, and a voucher for a garden centre can be presented to Mrs Jones at the next meeting.

Action – all who wish to contribute to take their contribution to the Chair; the Clerk to invite Elizabeth Jones to the next meeting.

5.4 Tocynnau Parcio / Parking Tickets –

Cafwyd pris am argraffu 12,000 o docynnau i'r maes parcio ger y traeth am £325 (du a gwyn) neu £400 (lliw). Bydd y tocynnau yn cael eu gwerthu am £2 yr un eleni. Cytuno argraffu mewn du a gwyn.

Gweithred – trefnu argraffu tocynnau.

A price has been given for printing 12,000 parking tickets for the beach car park at a cost of £325 (black/white) or £400 (colour). The tickets will be sold for £2 each this year. It was agreed to print in black and white.

Action – arrange for tickets to be printed.

5.5 Archwiliad Mewnol / Internal Audit –

Yr holl aelodau yn hapus i Mr John D Roberts archwilio cyfrifon 2013/14.

All members were happy for Mr John D Roberts to audit the 2013/14 accounts.

5.6 Talu Cyflog / Payment of wages –

Cytuno y byddai IG Jones (cyfrifydd) yn paratoi cyflog y Clerc ar gost o tua £100 y flwyddyn. Golygai hyn na fydd y Clerc yn paratoi cyflog ei hun. IG Jones sydd yn paratoi cyflog clercod eraill gogledd-ddwyrain Môn. Bydd angen gwirio beth fydd y drefn gyda thalu Rhian Whitehead am ei gwaith gyda'r fynwent.

Gweithred – trefnu bod IG Jones yn cael y manylion angenrheidiol

It was agreed that IG Jones (accountant) prepare the Clerk's wages at a cost of approx £100 per annum. This would mean that the Clerk would not be preparing her own wages. IG Jones currently prepare the wages for other Council Clerks in north east Anglesey. The way in which Rhian Whitehead is paid for her work with the cemetery will need to be checked.

Action – arrange that IG Jones has the relevant information

6 Cae Chwarae Cemaes / Cemaes Play Area

6.1 Archwilio / Inspections –

Cytuno bod rhaid archwilio'r cae chwarae yn ddyddiol wrth agor a chloi'r 'aerial slide'. Trafodwyd y posibilrwydd o gynnig taliad o £500 y flwyddyn i unigolyn am wneud hyn. Bydd hefyd angen archwiliad allanol gan ROSPA ar gyfer yr yswiriant un waith y flwyddyn. Gofynnwyd i'r Clerc roi hysbyseb syml at ei gilydd a gweld os bydd gan unrhyw un yn y gymuned ddiddordeb yn y gwaith yn wirfoddol. Bydd posib rhoi rhestr wirio i'r unigolyn er mwyn gwneud yn siŵr bod pob dim yn cael ei archwilio.

Mae Rose Griffiths wedi cyfarfod a'r Gwasanaeth Prawf sydd yn awyddus i ddatblygu gwasanaeth i gynnal caeau chwarae – paentio offer ayyb.

Gweithred – llunio hysbyseb ar gyfer archwilio offer

It was agreed that the play area should be inspected daily when the zip wire is opened/closed. The possibility of paying someone £500 per annum to do this was discussed. An annual independent inspection by ROSPA will still be required for insurance purposes. The Clerk was asked to put together a simple advertisement to see whether someone in the community would be interested in taking on the role voluntarily. It would be possible to put together a check list to ensure that all equipment is checked regularly.

Rose Griffiths has met with the Probation Service who are looking to develop a service to maintain play areas – painting equipment etc.

Action – Clerk to draw up advertisement for equipment inspection

6.2 Grantiau / Grants –

Mae'r pwyllgor Cae Chwarae wedi derbyn llythyr gan Gronfa Padrig yn gofyn am fwy o wybodaeth cyn y gwnawn ystyried eu cais am arian. Cytunwyd y dylai'r clerc gydweithio gyda'r pwyllgor i geisio am wahanol ffynonellau arian tuag at y cae chwarae, gyda thal am unrhyw oriau ychwanegol. Cytunwyd hefyd y dylai pwyllgorau caeau chwarae Cemaes a Thregele ddod at ei gilydd i weithio mewn partneriaeth i geisio am arian.

Cafwyd son bod cais am arian tuag at ddau lwybr yng nghae chwarae Cemaes wedi bod yn llwyddiannus.

Gweithred – gweithio gyda'r pwyllgorau i geisio am arian.

The play area committee have received a letter from Cronfa Padrig asking for even more information before they will consider the application. It was agreed that the clerk should work with the committee to apply for various funding, with any additional hours paid as need be. It was also agreed that the committee for Cemaes and the committee for Tregele should come together to work towards funding opportunities.

It is understood that an application for funding towards two paths at Cemaes Playing Field has been successful.

Action – work with the committees to apply for funding.

7 Cronfa Padrig

Mae Cronfa Padrig wedi gofyn i'r Cyngor ystyried sut y mae dewis dau gynrychiolydd i fod ar fwrdd yr elusen. Ar hyn o bryd, y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd sy'n cynrychioli'r Cyngor, ond gall hyn fod yn anodd gan fod aelod yn y Gadair am ddwy flynedd, ac mae gofyn i unigolyn fod yn ymddiriedolwr am 3-4 mlynedd. Trafodwyd dau opsiwn

1 – cadw'r gynrychiolaeth yr un peth h.y. Cadeirydd ac Is-gadeirydd

2 – dewis dau gynrychiolwr (ddim yn angenrheidiol y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd)

Penderfynwyd cadw Elfed Jones a Ricky Hughes am y tro a thrafod eto yn y cyfarfod blyneddol.

Gweithred – trafod eto yn y cyfarfod nesaf

Cronfa Padrig have asked the Council to consider how two individuals are chosen to represent the Council on the board of trustees. At present, the Chair and Vice Chair are the chosen representatives but this can cause problems as the Chair is in post for 2 years, whereas a trustee is expected to be in post for 3-4 years. Two options were discussed

1 – keep the representation the same (Chair / Vice Chair)

2 – choose any two representatives (not necessarily the Chair and Vice Chair)

It was agreed to keep Elfed Jones and Ricky Hughes for the time being and discuss in more detail at the AGM.

Action – discuss again at the next meeting

8 Hyfforddiant Cod Ymddygiad / Code of Conduct Training

Trafodwyd y llythyr yn ymwneud a hyfforddiant eto a nodwyd ei gynnwys. Roedd yr aelodau yn hapus i'r Clerc fynychu unrhyw hyfforddiant oedd ar gael. Gofynnodd Julia Dobson os oedd modd iddi hithau hefyd fynychu'r hyfforddiant ble roedd cyfle.

Gweithred – ymateb i'r Cyngor Sir

The contents of the letter regarding training was noted. The members were happy for the Clerk to attend any training available. Julia Dobson asked whether she could also attend where possible.

Action – respond to the County Council

9 Cynllunio / Planning

9.1 Ceisiadau / Applications –

Dim ond dau gais oedd i'w trafod sef y ddau gais i ddymchwel Park Lodge a Tŷ Baner. Cytuno nad oedd gwrthwynebiad i'r ceisiadau gan fod yr adeiladau mewn cyflwr mor ansefydlog.

Only two applications were to be discussed, to demolish Park Lodge and Ty Baner. It was agreed that the Council had no objections as the buildings were in such poor repair.

9.2 Penderfyniadau / Decisions –

Archwiliad daearyddol Wylfa - Caniatâd
Y Garreg, Sea View – Caniatad

*Wylfa ground investigations – Approved
Y Garreg, Sea View – Approved*

10 Sŵn Yr Afon

Nid oes ymateb byth i lythyrau'r Cyngor na'r twrna, a dal dim golwg o'r fainc. Mae'r Clerc wedi bod mewn cysylltiad â'r 'Open Spaces Society' sydd yn barod i gefnogi'r Cyngor oni bai eu bod yn aelodau o'r gymdeithas. Mae cost aelodaeth yn £45 y flwyddyn ac roedd pawb yn hapus i ymaelodi.

Mae rhwystrau wedi eu gosod ger y llithrfa erbyn hyn er mwyn atal ceir rhag parcio a defnyddio llwybr gerdded. Buasai posib trafod y mater yma gyda'r OSS hefyd.

Gweithred – ymaelodi a'r OSS a thrafod y materion uchod

There is yet to be a response to the Council or Solicitors letters written to the owner of Sŵn yr Afon, and still no sign of the bench returning. The Clerk has been in contact with the Open Spaces Society who are happy to provide guidance and support to the Council on the provision that they are members of the society. Annual membership is £45, and it was agreed that the Council should join.

Bollards have now been erected by the slipway to prevent people parking and using a footpath. It will also be possible to discuss this matter with the OSS.

Action – join the OSS and discuss the above matters

11 Amgueddfa Forwrol / Maritime Museum

Cafwyd amlinelliad o brosiect uchelgeisiol i gael adeiladu amgueddfa forwrol ym mhen draw'r traeth lle bydd posib cadw'r bad achub. Bydd efallai modd sicrhau arian gan yr NDA tuag at y prosiect a fydd yn bartneriaeth o wahanol grwpiau a mudiadau o'r ardal.

Cafwyd cefnogaeth y Cyngor mewn egwyddor. Bydd angen trefnu pwyllgor o gynrychiolwyr i gyfarfod a thrafod mewn manylder. Bydd hefyd angen cyfarfod cyhoeddus a llawer iawn mwy o wybodaeth.

Those present were given an overview of an ambitious project to build a maritime museum at the far end of the beach, where it will be possible to house the lifeboat. It may be possible to secure funding from the NDA towards the project that would be a partnership between various organisations.

The Council agreed to support the project in principle. A meeting would need to be arranged where representatives from various groups can discuss in more detail. Further information and a public meeting would also be required.

12 Gohebiaeth / Correspondence

12.1 Cais am Wybodaeth / Request for Information

Er gwybodaeth, mae'r Cyngor wedi cael cais am wybodaeth am deulu unigol, ac wedi dilyn canllawiau gan y gwasanaeth cymdeithasol wrth ymateb. Os bydd unrhyw aelod yn derbyn cais o'r fath mae'n bwysig bod ymateb swyddogol yn dod drwy law'r Cadeirydd / Clerc.

For information, the Council have received an FOI request regarding an individual family and have responded following guidance from the social services department. Should any individual member of the Council receive such a request it is important that an official reply is sent through the Chair/Clerk.

12.2 Gwylwyr y Glannau / Coast Watch –

Bydd cyfarfod cyhoeddus 24/4/2014 i sefydlu grwp 'Coast Watch' sydd yn gobeithio hyfforddi gwirfoddolwyr gan ddefnyddio hen wylfan ar dir Horizon. Mae llythyr wedi ei dderbyn yn gofyn i'r Cyngor am gefnogaeth, ond gan fod y wylfan ar dir Horizon, mater i Horizon yw hwn.

A public meeting to establish a new Coast Watch group is to take place 24/4/2014. The group aims to train volunteers by utilising the old watch tower on Wylfa Head. A letter has been received asking for Council support but as the watch tower is on Horizon's land this is a matter for Horizon.

12.3 Syr Owen Thomas / Sir Owen Thomas -

Cafwyd llythyr o ddiolch am gyfraniad y Cyngor, a gwahoddiad i unrhyw aelod fynychu'r seremoni dadorchuddio sydd gymryd lle 27/4/2014 am 2 o'r gloch. Bydd angen i unrhyw un a diddordeb gadarnhau a'r Clerc cyn gynted â phosib.

A letter of thanks was received following receipt of Council's contribution, and an invitation is extended to all members of the Council to attend the unveiling ceremony on 27/4/2014 at 2pm. Anyone interested in attending is to confirm with the Clerk as soon as possible.

12.4 Gofal Cymdeithasol / Social Care –

Bydd cyfarfod yn Neuadd Goffa Amlwch 30/4/2014 fel rhan o'r gwaith ymchwil CSYM ar ofal cymdeithasol i oedolion.

A meeting will be held at the Amlwch War Memorial Hall 30/4/2014 as part of the IACC research into adult social care

- 12.5 Grantiau Cyngor Sir / County Council Grants –
Mae'r ffurflenni cais ar gyfer grantiau bychain ar gael, gyda'r dyddiad cau 9/5/214.

The application forms for the small grants schemes are now available, the closing date being 9/5/2014.

13 Unrhyw Fater Arall / Any Other Business

13.1 Coed Tan / Firewood –

Diolchwyd i Jack Longman am ei waith yn trefnu'r coed tan dros y penwythnos. Gofynnwyd i'r Clerc anfon llythyr at Horizon i ddiolch iddynt am y coed.

Gweithred – anfon llythyr o ddiolch

Jack Longman was thanked for his efforts organising the distribution of firewood over the weekend. The Clerk was asked to send a letter of thanks to Horizon for providing the wood.

Action – send letter of thanks.

13.2 Cyflwyniadau / Presentations –

Gofynnwyd i'r Clerc anfon nodyn o ddiolch i Lowri Hughes (AHNE Mon) ac i Richard Foxhall a Daron Hodges (Horizon) am eu cyflwyniadau ar yr 8fed o Ebrill.

Gweithred – anfon nodyn o ddiolch

The Clerk was asked to send a note of thanks to Lowri Hughes (Anglesey AONB), Richard Foxhall and Daron Hodges (Horizon) for their presentations on the 8th April.

Action – send note of thanks.

13.3 Croesfan ger yr Ysgol / Crossing by the School –

Fe ofynnodd y Cyng. Wil Hughes pe bai modd trafod yr eitem yma mewn manylder a'i gynnwys ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Gweithred – Cynnwys yr eitem ar agenda'r cyfarfod nesaf.

Cllr Wil Hughes asked if it were possible to include this item on the agenda for further discussion at the next meeting.

Action – include the item on the agenda for the next meeting.

13.4 Hydrad Ddwr / Fire Hydrant

Fe ofynnodd y Cyng. Wil Hughes am gefnogaeth y Cyngor i gysylltu â'r Bwrdd Dwr a'r Gwasanaeth Tan yn dilyn tan mewn sied yn ddiweddar - nid oedd hydrad ddwr o fewn gafael gan wneud gwaith yr adran dan yn fwy anodd. Y bwriad yw diweddarau'r mapiau / system GPS yn dangos lleoliad yr hydradau. Roedd pawb yn cytuno a chefnogi.

Cllr Wil Hughes asked for Council support to contact the Water Board and the Fire Service following a recent fire in a shed – it seemed that there was no fire hydrant within

reach thus making the fire service' work more difficult. The aim is to update the maps / GPS system showing the location of the relevant hydrants. All present agreed and were in support.

14 Dyddiad ac Amser y Cyfarfod Nesaf / Date and Time of Next Meeting

Bydd y cyfarfod nesaf yn cymryd lle 19/5/2014 am 6.30 o'r gloch yn y Neuadd Bentref, i'w ddilyn gan y Cyfarfod Blynyddol am 7.30 o'r gloch.

The next meeting will take place 19/5/2014 at 6.30pm in the Village Hall, followed by the AGM at 7.30pm.

Bu'r Cyfarfod orffen am 10 o'r gloch / *The meeting closed at 10pm*

CET04/2014